

Mr Gethin Jones

**Arweinydd Bagloriaeth CA5**
**KS5 Baccalaureate Coordinator**

Bagloriaeth Cymru
Welsh Baccalaureate

Yma yn Ysgol Maes Garmon, rydym yn disgwyl i bob myfyriwr ddilyn y cwrs Bagloriaeth Sgiliau Uwch fel rhan o'u hastudiaethau.

Mae prifysgolion a chyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar y sgiliau, y priodoleddau a'r ymddygiadau a ddatblygir drwy'r cymhwyster. Gall y cymhwyster helpu myfyrwyr i gael eu derbyn i addysg uwch.

Rydym yn annog ein myfyrwyr i ddilyn dau neu dri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) yn unol â gofynion y cwrs addysg uwch y maent yn bwriadu ei ddilyn, yn ogystal â Bagloriaeth Cymru.





Here at Ysgol Maes Garmon, we expect every student to follow the Advanced Skills Baccalaureate Wales as part of their studies.

The skills, attributes and behaviours that are developed through this qualification are greatly valued by universities and employers. The qualification can help students to gain entry to higher education.

We encourage our students to take two or three A Levels (or equivalent) in accordance with  the requirements of the higher education course they intend to pursue, in addition to the Welsh Baccalaureate.



Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch
Advanced Skills Baccalaureate Wales

cbac wjec

PAM ASTUDIO DYFARNIAD LEFEL 3 MEWN

# BAGLORIAETH SGILIAU CYMRU UWCH?

Cymhwyster Lefel 3 newydd cyffrous yw'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (BSC Uwch) sy'n cefnogi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar, gan sicrhau bod y sgiliau ganddyn nhw ar gyfer astudiaeth yn y dyfodol neu i fynd i mewn i'r farchnad swyddi.

Dyluniwyd y cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed, a gellir ei sefyll ochr yn ochr â chymwysterau lefel 3 eraill, gan gynnwys Safon Uwch.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**
Mae ein cwrs dwy flynedd yn cynnwys 3 phroject: Project Cymuned Byd-eang, Project Cyrchfan y Dyfodol, a Phroject Unigol. Byddwch yn datblygu ac yn cymhwyso'r 4 sgìl Cyfannol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r 3 sgil Mewnblanedig. Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a chyd-destunau cyffrous a fydd yn seiliedig ar agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru yn ôl diffiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?**
Byddwch chi'n datblygu amrywiaeth o sgiliau sy'n atyniadol i gyflogwyr, colegau a phrifysgolion, gan gynnwys:

**Sgiliau cyfannol**
- Cynllunio a Threfnu
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

**Sgiliau mewnblanedig**
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd Digidol

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**
**Byddwch yn cwblhau 3 phroject:**

**Project Cymuned Byd-eang (25%)**
Byddwch yn dewis mater byd-eang i ymchwilio iddo, yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill ac yn gweithredu yn y gymuned.

**Project Cyrchfan y Dyfodol (25%)**
Byddwch yn dod i ddeall chi eich hun, yn archwilio nodau o ran cyflogaeth a llesiant yn y dyfodol, ac yn cynllunio sut gallwch gyflawni hyn.

**Project Unigol (50%)**
Byddwch yn cynllunio, yn rheoli ac yn ymchwilio i destun sy'n gysylltiedig â'ch dyheadau addysg neu yrfa yn y dyfodol, ac yn creu traethawd hir ysgrifenedig neu arteffact.

Gellir sefyll asesiadau drwy gydol y cwrs dwy flynedd gyda chymedroli allanol ym mis Ionawr a mis Mai. Rydych yn debygol o gwblhau'r Project Unigol yn yr ail flwyddyn.

**GYRFAOEDD GYDA BSC Uwch**
Mae'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i feithrin sgiliau pwysig y gallwch eu datblygu p'un a ydych yn symud ymlaen i brifysgol, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd datblygu'r sgiliau hyn yn eich helpu i ddod yn ddinesydd effeithiol, cyfrifol a gweithgar a gall gael effaith aruthrol ar eich llwyddiant a'ch llesiant yn y dyfodol.

DEWCH I WYBOD MWY:
SIARADWCH Â Mr GETHIN JONES

Ewch ar Instagram i gael yr awgrymiadau a'r cyngor diweddaraf

@cbacifyfyrwyr




WHY STUDY LEVEL 3 AWARD IN

# ADVANCED SKILLS BACCALAUREATE WALES?

The Advanced Skills Baccalaureate Wales (AdvSBW) qualification is an exciting new Level 3 qualification that supports students to become effective, responsible and active citizens, equipping them with the skills for future study or to enter the job market.

The qualification has primarily been designed for students aged 16-19, and can be taken alongside other Level 3 qualifications, including A levels.

**WHAT WILL I STUDY?**

Our two-year course is made up of 3 projects: Global Community Project, Future Destination Project, and Individual Project. You will develop and apply the 4 Integral skills and have opportunities to develop the 3 Embedded skills. Students will take part in a variety of exciting activities and contexts which will be based on the United Nations sustainable development agenda and Wales's Well-being Goals as defined by the Well-being of Future Generations Act (Wales).

**WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?**

You will develop a range of skills which are attractive to employers, colleges and universities including:

**Integral skills**

- Planning and Organisation
- Critical Thinking and Problem Solving
- Creativity and Innovation
- Personal Effectiveness

**Embedded skills**

- Literacy
- Numeracy
- Digital Competence

**HOW WILL I BE ASSESSED?**

**Global Community Project (25%)**

You will select a global issue to investigate, share your knowledge with others and take part in a community action.

**Future Destination Project (25%)**

You will gain an understanding of yourself, explore future employment and wellbeing goals, and plan how you can achieve this.

**Individual Project (50%)**

You will plan, manage, and research a topic linked to your future education or career aspirations, and create a written dissertation or an artefact.

Assessments can be taken throughout the two-year course with external moderation in January and May. You are likely to complete the Individual Project in the second year.

**CAREERS WITH AdvSBW**

This qualification allows you to develop important skills that you can take forward whether you are moving on to university, training or employment. Developing these skills will help you become an effective, responsible and active citizen and can have a profound effect on your future success and wellbeing.

FIND OUT MORE:

TALK TO Mr GETHIN JONES

Get the latest tips and advice on Instagram

@wjecforlearners